# Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant

## Adroddiad Bioamrywiaeth 2023/2024

Dyma ardal hyfryd yn ne orllewin Meirionnydd, gyda chyfoeth o hanes a threftadaeth. Mae'n ymestyn o Fwlch Talyllyn i Dolgoch, ac o Gwm  Llanfihangel y Pennant hyd at Graig yr Aderyn. _ Mae'n cynnwys Llyn Talyllyn (Llyn Mwyngil), a hefyd Cartref Mari Jones, sef Ty'n Ddol.

Mae hefyd  yn cynnwys Castell y Bere, a adeiladwyd gan Llywelyn Fawr yn 1221,  sy'n enghraifft o beirianneg canoloesol Cymreig.

Gwasgaredig yw'r boblogaeth sydd o fewn ffiniau'r Cyngor Cymuned. Mae'r nifer mwyaf yn byw yn Abergynolwyn, - pentref a ddaeth i  fodolaeth yn dilyn agor Chwarel Llechi Bryneglwys yn 1844.

Mae'r trigolion yn gweithio yn y byd amaeth, twristiaeth a gwasanaethau eraill,  a nifer yn teithio allan o'r ardal i amrywiaeth o swyddi.  Mae nifer yn gweithio o adref.
Mae Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri gydag amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest,  tir gwastad a dolydd, gorlifdir, afonydd, llynnoedd.  Ardal amaethyddol yw'r cymoedd sy'n amgylchu Abergynolwyn.

Mae'r amaethwyr, gyda chyngor gwahanol gynlluniau Llywodraeth Cymru a Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol, yn cyfrannu'n sylweddol iawn at gynnal bioamrywiaeth yr ardal.

Mae'r Cyngor Cymuned yn berchen ar Fynwent y Plwyf yn Llanfihangel y Pennant, lle mae claddedigaethau, a mynwent y Fedw yn Abergynolwyn. Mae'r gwair ym mynwent Llanfihangel y Pennant yn cael ei dorri 6 gwaith, a mynwent y Fedw unwaith.  Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am y Maes Chwarae yn Abergynolwyn, ac am llwybrau cyhoeddus yn y gymuned.

| **Adroddiad Gweithredu** | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu i: | | Wedi eu monitro gan: |
| -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | - Wrth ymateb i geisiadau cynllunio<br>- wrth ymwneud a phrosiectau'r Cyngor<br>- wrth bwrcasu | Cyngor Cymuned |
| -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | | |
| -diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd | Gofalu bod ceisiadau cynllunio yn cyd-ymffurfio gyda rheolau gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri<br>Torri gwair Mynwent yr Eglwys yn Llanfihangel y Pennant 6 waith y | Cyngor Cymuned |

| | | |
|---|---|---|
| | flwyddyn. Y Fedw yn Abergynolwyn unwaith. | |
| -adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Plygu/torri gwrych ym mynwent Llanfihangel y Pennant | Cyngor |
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | Gyda chymorth wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri. | Cyngor |
| -defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth | | |
| -cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | Cefnogi gwaith amaethwyr a gwaith cynnal llwybrau | Cyngor |

Monitro parhaus
Arfarniad yn Rhagfyr/Ionawr bob blwyddyn

Huw Jones
Clerc Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant
8/4/24